# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**Dyddiad:** Dydd Iau 13 Mai 2004
**Lleoliad:** Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
**Teitl:** Cynllun Datblygu Cynaliadwy - ystyried y cynllun gweithredu drafft

## Diben

Hysbysu'r Pwyllgor a cheisio ei farn ar y cynllun gweithredu drafft.

## Crynodeb/Argymhellion

Atodir y cynllun gweithredu drafft er mwyn ei drafod ar gais y Pwyllgor, yn dilyn gwahoddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yng nghyfarfod llawn 16 Mawrth i bob Pwyllgor Pwnc ei ystyried.

**http://www.cymru.gov.uk/themessustainabledev/content/review/action-plan-w.htm**

Bydd cyfnod ymgynghori'r Cynllun drafft yn parhau nes 21 Mai er mwyn rhoi cyfle i'r cynllun gweithredu terfynol gael ei gyflwyno gerbron cyfarfod llawn cyn toriad yr haf.

## Y Cefndir

Datblygwyd y Cynllun Gweithredu i gyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy diwygiedig, a fabwysiadwyd gan Aelodau Cynulliad yng nghyfarfod llawn 16 Mawrth. Mae'r Cynllun diwygiedig yn egluro'r weledigaeth y mae'r Cynulliad yn ceisio ei gwireddu; yr egwyddorion yr ydym yn eu dilyn; yr ymrwymiadau y mae'r Cynulliad cyfan yn eu gwneud; a sut y bydd Llywodraeth y Cynulliad, gyda phartneriaid, yn creu patrwm datblygu mwy cynaliadwy yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i ffocysu ac mae'n cynnwys camau cyffredinol sy'n debygol o orfodi newid sylfaenol yn y broses o ddarparu. Mae'r Cynllun drafft yn canolbwyntio ar bum cam cydberthynol:

- ceisio datblygu camau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, yn enwedig drwy ddilyn camau sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy;
- defnyddio grym prynu sylweddol iawn sector cyhoeddus Cymru er mwyn helpu i greu a symud marchnadoedd i gefnogi hyn a materion allweddol eraill sy'n ymwneud â pholisi megis iechyd a

lles;
- gosod datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wrth wraidd addysg ffurfiol;
- gweithio gydag eraill, gwneud ymgais i godi ymwybyddiaeth o'r materion hyn;
- sicrhau bod ein strwythurau a'n prosesau sefydliadol yn iawn er mwyn ategu datblygu cynaliadwy ac agenda'r Llywodraeth. Rhan o'r gweithgaredd hwn fydd i'r Cynulliad geisio model rhagoriaeth sefydliadol a defnyddio ein pwer a'n dylanwad i sicrhau bod eraill yn gwneud yn yr un modd.

Mae'r Gweinidogion yn gobeithio, unwaith y bydd y Cynllun Gweithredu wedi'i gwblhau, y bydd hefyd yn cael statws atodiad ffurfiol i'w hagenda strategol yn Cymru: Gwlad Well.

## Materion i'w Hystyried

Gall y bennod ar 'Byw'n Wahanol' sy'n canolbwyntio ar y prif faterion strwythurol ar gyfer datblygu cynaliadwy; ac 'Arweinyddiaeth a Darparu', lle y cyfeirir at greu strwythurau a all arwain at ddatblygu cynaliadwy, fod o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor hwn.

## Goblygiadau Ariannol

Ni ofynnir i'r Pwyllgor wneud unrhyw benderfyniad o ran gwariant mewn ymateb i'r papur hwn, ond efallai y byddant yn dymuno nodi'r sefyllfa ariannol mewn cysylltiad â'r cynigion sydd yn y Cynllun Gweithredu drafft. Gellir bodloni'r ymrwymiadau arfaethedig yn y Cynllun drafft sy'n rhan o'r gyllideb Datblygu Cynaliadwy yn fewnol. Fel arall, mae'r Cynllun wedi'i ddrafftio i fod yn gynwysadwy o fewn adnoddau presennol. (Gall cynlluniau peilot arfaethedig gefnogi achos am wariant ychwanegol, ond fe fyddai hynny'n fater i'w benderfynu ar wahân yn ddiweddarach yng nghyd-destun cylchoedd cynllunio'r dyfodol). Byddai ymrwymiadau penodol yn awgrymu cost uned gychwynnol uwch o fewn y rhaglen berthnasol, i gynhyrchu arbedion mwy hirdymor. Er mwyn i'r rhain fod yn gynwysadwy o fewn adnoddau cyfredol, byddai'n rhaid i gyfaint yr unedau a brynir gael ei leihau ychydig. Byddai angen ystyried goblygiadau ariannol unrhyw ymrwymiadau ychwanegol cyn y gellid eu cynnwys yn y fersiwn derfynol.

## Themâu Trawsbynciol

Neges y papur hwn yw cymryd camau i ddarparu newid ym maes datblygiadau cynaliadwy sy'n atgyfnerthu gweithgareddau sy'n ymwneud â chynhwysiant cymdeithasol a chydraddoldeb cyfle. Cyfrannodd rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys llywodraeth leol, y sector busnes a gwirfoddol i'r broses o ymgynghori ar y Cynllun ac fe'u cynrychiolwyd hwy'n dda mewn gweithdai a gynhaliwyd yn ystod mis Ionawr, a chyfrannodd canlyniad y gweithdai hynny at y Cynllun Gweithredu drafft.

## Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor Pwnc

Gwahoddir y Pwyllgor i wneud sylwadau ar y cynllun gweithredu drafft ac, yn benodol, ar pa gamau

ddylai dderbyn blaenoriaeth.

**Enw Carwyn Jones AC**
**Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**

Swyddog Cyswllt: Anne Rowlands, Uned Polisi Strategol, ffôn: 3388